Taflen Gyngor Iechyd a Diogelwch 4:

CAMAU GWEIGION A BAGLIADAU

CEFNDIR

Camau gweigion a bagliadau yw achos mwyaf cyffredin anafiadau sylweddol yn y gwaith. Maent yn digwydd yn holl weithleoedd bron, gyda 95% o gamau gweigion sylweddol yn torri esgyrn. Gallant hefyd fod yn achosion dechreuol amrywiaeth o fathau eraill o ddamweiniau fel codymau o uchder.

Y GYFRAITH

Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992 (fel y newidiwyd)

BETH SYDD ANGEN I MI WNEUD I GYDYMFFURFIO?

Rhaid i holl gyflogwyr asesu'r risgiau i gyflogeion ac eraill all gael eu heffeithio gan eu gwaith, e.e. ymwelwyr a'r cyhoedd. Mae hyn yn helpu darganfod beth sydd angen ei wneud i reoli'r risg. Mae ei angen hefyd i fodloni'r gyfraith.

Mae pum cam at asesu risg a dylai risgiau camau gweigion a bagliadau fod ymysg y risgiau i'w harchwilio.

- **Cam 1** Edrych am beryglon camau gweigion a bagliadau o gwmpas y gweithle, fel lloriau anwastad, ceblau ar y llawr a mannau sydd weithiau'n llithrig oherwydd gollyngiadau. Dylid cynnwys rhannau awyr agored.
- **Cam 2** Penderfynu pwy allai gael niwed a sut? Pwy sy'n dod i'r gweithle? Ydyn nhw mewn perygl? Oes gennych chi unrhyw reolaeth drostynt? Cofiwch y gall pobl hŷn a phobl anabl fod mewn perygl arbennig.
- **Cam 3** Ystyried y risgiau. A yw'r rhagofalon a gymrwyd eisoes yn ddigonol i ddelio â'r risgiau?
- **Cam 4** Cofnodi eich canfyddiadau os oes gennych bump neu fwy o gyflogeion.
- **Cam 5** Adolygu'r asesiad yn rheolaidd. Os bydd unrhyw newidiadau arwyddocaol yn digwydd, sicrhau bod rhagofalon a threfniadau rheoli presennol yn dal yn ddigonol i ddelio â'r risgiau.

RHAGOR O GYFARWYDDYD

- Osgoi camau gweigion, bagliadau a chodymau yn y gwaith (INDG225) HSE
- Gwefan HSE (gwelwch Camau Gweigion a Bagliadau): www.hse.gov.uk
- Taflenni am ddim HSE: www.hse.gov.uk